# Proffil Iaith Sir Wrecsam 2026

Gan


## Menter Iaith Fflint a Wrecsam

Corlan

Uned 3

Parc Busnes Yr Wyddgrug

Yr Wyddgrug

CH7 1XP



Cynnwys gwreiddiol gan Gwmni Sbectrwm

Diweddarwyd Mai 2018, Mawrth 2021, Awst 2025 a Gorffennaf 2026 gan staff y Fenter

# Cynnwys


1. Cyflwyniad a nod y gwaith ........ 3
2. Effaith Covid-19 ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn gymunedol. ........ 3
3. Demograffeg y Gymraeg ........ 4
   3.1 Cyflwyniad ........ 4
   3.2 Dadansoddi ystadegau o wahanol ffynonellau ........ 5
   3.3 Cymraeg yn sirol a lleol ........ 7
   3.4 Sgiliau ehangach yn y Gymraeg ........ 8
   3.5 Effaith mudo ar gymunedau ........ 10
   3.6 Hunaniaeth Genedlaethol a Gallu’r Gymraeg ........ 12
4. Y Ffit Strategol ........ 14
   4.1 Cyflwyniad ........ 14
   4.2 Rôl Menter Iaith Fflint a Wrecsam ........ 14
      4.2.1 Cyd Gynllunio ........ 15
      4.2.2 Aelodaeth y Fforwm Iaith ........ 15
   4.3 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ........ 16
   4.4 Cynghorau Tref a Chymuned ........ 17
5. Trosglwyddo Iaith yn y cartref ........ 18
   5.1 Cyflwyniad ........ 18
   5.2 Cyfradd trosglwyddo yn ôl math o deulu ........ 19
6. Addysg ........ 20
   6.1 Blynyddoedd cynnar ........ 20
      6.1.1 Cymraeg i Blant ........ 20
      6.1.2 Clwb Cwtsh ........ 20
      6.1.3 Cylchoedd Ti a Fi ........ 21
      6.1.4 Cylchoedd Meithrin/Meithrin Mwy: ........ 22
   6.2 Addysg Gynradd ac Uwchradd Cyfrwng Cymraeg ........ 23
   6.3 Addysg Bellach ........ 25
   6.4 Addysg Uwch – Prifysgol Wrecsam ........ 25
      6.4.1 Cefndir ........ 25
      6.4.2 Polisi'r Gymraeg ........ 26
      6.4.3 Strategaeth CYFLE ........ 26
      6.4.4 Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ........ 27
      6.4.5 Sgiliau Iaith ........ 27
   6.5 Cymraeg i Oedolion ........ 27
7. Iechyd a Lles ........ 28

8. Y Gweithle a’r Economi ..... 28
8.1 Cyflwyniad ..... 28
8.2 Y Gweithlu ..... 29
8.3 Diweithdra ..... 30
8.4 Diwydiant, Galwedigaethau a Siaradwyr Cymraeg ..... 30
8.5 Incwm ..... 32
8.6 Defnydd Iaith Mewn Busnesau ..... 32
9. Tai ac Aelwydydd ..... 33
9.1 Aelwydydd ..... 33
9.1.1 Cyfansoddiad y Cartref ..... 33
9.2 Daliadaeth / Preswylwyr eiddo ..... 34
9.3 Y farchnad dai ..... 34
9.3.1 Pris Tai Cyfartalog ..... 34
9.3.2 Fforddiadwyedd ..... 35
9.3.3 Treth Trafodiadau Tir ..... 35
9.3.4 Eiddo Gwag ..... 36
10. Gweithgareddau Cymunedol ..... 37
10.1 Menter Iaith Fflint a Wrecsam ..... 37
10.2 Urdd Gobaith Cymru ..... 38
10.3 Clybiau Ffermwyr Ifanc ..... 38
10.4 Merched y Wawr ..... 38
10.5 Papurau Bro ..... 39
10.6 Canolfan ‘Saith Seren’ ..... 39
10.7 Cymdeithasau Cymraeg Eraill ..... 39
10.7.1 Cymdeithasau Cymraeg: ..... 40
10.7.2 Corau: ..... 40
10.7.3 Capeli Cymraeg: ..... 40
10.7.4 Eisteddfodau Lleol: ..... 41
10.8 Cymraeg i Oedolion ..... 41
10.9 Gwefannau Bro ..... 41
10.10 Rhwydweithiau cymdeithasol ar lein ..... 41
11. Astudiaethau perthnasol ..... 42
11.1 SWOT ..... 42
11.2 PEST ..... 44
12. Gwaith ymchwil ..... 45
13. GDPR ..... 45

## 1. Cyflwyniad a nod y gwaith

Mae'r Proffil Iaith hwn yn cynnwys gwybodaeth ar lefel awdurdod lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ac ar sail yr adrannau etholiadol, ardaloedd gynnyrch ehangach haen ganol (AGEHG) neu ardaloedd gynnyrch ehangach haen is (AGEHI). Diweddariad o broffil blaenorol ydyw, gyda rhai adrannau'n seiliedig ar ganlyniadau cyfrifiad 2021. Fel pob proffil o'r fath mae'r ddogfen hon yn un byw, sydd angen ei haddasu'n gyson mewn ymateb i newid mewn sefyllfaoedd neu wybodaeth newydd yn dod i law.

Bydd y Proffil hwn yn ddogfen allweddol er mwyn gallu cydnabod y newidiadau a dadansoddi eu heffeithiau ar wydnwch y Gymraeg a'i defnyddwyr. Bydd yn sylfaen i baratoi a datblygu cynlluniau gwaith a strategaethau'r dyfodol ac yn creu darlun o ba ymyraethau ychwanegol neu newydd sydd eu hangen er mwyn ymateb i unrhyw sgil effeithiau negyddol a sicrhau ffyniant y Gymraeg.

Byddwn yn rhannu'r cynnwys gydag ein partneriaid megis yr awdurdod lleol, partneriaid y Fforwm Iaith Sirol ayb yn ogystal â defnyddio'r canfyddiadau fel sail trafodaethau i gynllunio'n effeithiol ar y defnydd o'r Gymraeg yn Sir Wrecsam.

## 2. Effaith Covid-19 ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol.

Cynhaliwyd Arolwg Effaith COVID-19 ar Grwpiau Cymunedol Cymraeg gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth y Mentrau Iaith lleol rhwng 14eg o Fedi a 9fed o Hydref 2020. Cysylltwyd â grwpiau oedd yn darparu cyfleoedd i gymdeithasu, gwirfoddoli a chymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardaloedd lleol bob Menter Iaith. Gofynnwyd i'r grwpiau a'u hadnabyddir i gwblhau'r arolwg gyda'r nod o gasglu tystiolaeth ar sut roedd y grwpiau hynny wedi gweithredu cyn y pandemig, os oedden nhw wedi gallu gweithredu ers cychwyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020 a beth oedd eu disgwyliadau ar gyfer y dyfodol. Cafwyd 1,092 ymateb i'r arolwg dros Gymru gyfan.

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru i'w weld yma:
Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: canfyddiadau arolwg

Mae adroddiad llawn gan Fenter Iaith Fflint a Wrecsam gyda'r canfyddiadau ar gyfer Sir Wrecsam ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:
https://acrobat.adobe.com/id/urn:aaid:sc:EU:ffd654d8-60df-4209-a177-bb5bc84936ef

# 3. Demograffeg y Gymraeg

## 3.1 Cyflwyniad


Mae lleoliad Sir Wrecsam, ar y ffin yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn cynnwys ardal sy'n mesur 193 milltir sgwâr (499 cilometr sgwâr). Prif ganolbwynt masnachol, diwydiannol a chymdeithasol y sir yw dinas Wrecsam. Lleolir y ddinas ychydig filltiroedd o'r ffin â Lloegr ac mae'n ganolfan naturiol i Ogledd Cymru. Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd gan Sir Wrecsam boblogaeth o 135,112.
[Y boblogaeth breswyl arferol yn ôl rhyw ac awdurdod lleol]

Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf, cynyddodd poblogaeth y sir 0.2% (o ychydig dros 134,800 i tua 135,100). Dros yr un cyfnod, roedd gostyngiad o 0.7 pwynt canran yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg (o 12.9% i 12.2%).

Yn 2021, roedd tua 700 llai o drigolion y sir yn siarad Cymraeg nag yn 2011. Roedd cynnydd o 2,400 yn y boblogaeth nad oeddent yn siarad Cymraeg dros yr un cyfnod.

Roedd 67.9% (tua 91,800) o'r boblogaeth leol yn dweud eu bod wedi eu geni yng Nghymru yn 2021, sydd yn ostyngiad o 1.3 pwynt canran ers 2011 (69.2%, 93,400 person).
[How life has changed in Wrexham: Census 2021]

Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2021 bod 15,953 o bobl dros 3 oed yn Sir Wrecsam yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn cyfateb i 12.2% o'r boblogaeth. Mae hyn yn dangos gostyngiad dros y degawdau diwethaf. Roedd Cyfrifiad 2011 yn dangos 16,659 o bobl ac yn 2001 roedd 17,897. Dengys y siart isod gan Fentrau Iaith Cymru'r newid ers 1961.



## 3.2 Dadansoddi ystadegau o wahanol ffynonellau

Mae ffigurau'r Cyfrifiad diweddaraf yn amlwg yn siom.

Dros y degawdau, mae hi wedi bod yn amlwg bod y canfyddiadau o ffynonellau hunan-adrodd (e.e. y Cyfrifiad) yn medru bod yn gamarweiniol iawn. Mae hefyd gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg rhwng y cyfrifiad ac arolygon aelwydydd fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru wedi archwilio rhesymau posibl dros rai o'r gwahaniaethau hyn yn y gorffennol.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 538,296 o breswylwyr arferol tair oed neu'n hŷn yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, neu 17.8% o'r boblogaeth.

Mewn cymhariaeth, ar yr adeg y cynhaliwyd Cyfrifiad 2021, nododd data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth bod 885,100 o siaradwyr Cymraeg tair oed neu'n hŷn sy'n byw yng Nghymru (29.2% o'r boblogaeth).

Er bod arolygon aelwydydd fel arfer yn rhoi amcangyfrifon uwch o allu yn y Gymraeg, dyma'r tro cyntaf i'r cyfrifiad ddangos gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg tra bo'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos cynnydd.

Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gynllun gwaith ar y cyd sy'n amlinellu'r gwaith maent yn bwriadu ei wneud i wella eu dealltwriaeth o brif ffynonellau data arolygon a data gweinyddol a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau am y Gymraeg.

Cyhoeddwyd y canfyddiadau cychwynnol ar 26 Hydref 2023, gyda diweddariad ar 18 Rhagfyr 2023:
[Gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 ac arolygon aelwydydd [HTML] | LLYW.CYMRU]

Prif bwyntiau:

- Roedd tua dau o bob pump (39.9%) o'r bobl a gofnododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu yng Nghyfrifiad 2021 wedi cofnodi nad oeddent yn gallu gwneud hynny yn y ffynhonnell arall.
- Dywedodd mwy o bobl eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu ac nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021 na'r gwrthwyneb.
- O'r bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu Gyfrifiad 2021, y grwpiau canlynol oedd yn tueddu i gytuno ar draws y ddwy ffynhonnell fwyaf aml: pobl 65 oed neu hŷn; pobl sy'n byw yn y gogledd orllewin; pobl a anwyd yng Nghymru; a phobl â hunaniaeth genedlaethol Gymreig.
- O'r bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu Gyfrifiad 2021, y grwpiau canlynol oedd yn tueddu i anghytuno ar draws y ddwy ffynhonnell fwyaf aml: pobl iau na 25 oed; pobl sy'n byw yn y de

ddwyrain a'r gogledd ddwyrain; pobl a anwyd mewn mannau eraill o'r DU; a phobl heb hunaniaeth genedlaethol Gymreig.

- O'r bobl oedd yn cytuno y gallent siarad Cymraeg ar y ddwy ffynhonnell, nododd dros ddwy ran o dair (68.6%) eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd. O'r bobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu ond nid yng Nghyfrifiad 2021, dim ond tua chwarter (24.8%) oedd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd.
- Mae cyfran lai o aelwydydd cwpl yn cytuno ar eu gallu i siarad Cymraeg rhwng y ddwy ffynhonnell lle nad oes yr un, neu ddim ond un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu ag aelwydydd cwpl sy'n cynnwys dau neu fwy o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg.

Wrth i ystadegau perthnasol pellach dod i rym, bydd yn bosibl darparu dadansoddiad dyfnach. Gweler isod yr ystadegau Sir Wrecsam o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o 2011 a 2021 i gymharu gyda chanlyniadau'r Cyfrifiad.

Canlyniadau mis Mawrth a mis Medi 2025 yw'r data diweddaraf sydd ar gael, felly maent wedi'u cynnwys hefyd.

| | Cyfanswm y boblogaeth | Yn gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n gallu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifiad 2011** | 129,425 | 16,659 | 12.9% |
| **Arolwg 30/6/11** | 128,600 | 23,500 | 18.3% |
| **Cyfrifiad 2021** | 131,090 | 15,956 | 12.2% |
| **Arolwg 30/6/21** | 135,300 | 35,400 | 26.2% |
| | | | |
| **Arolwg 31/3/25** | 139,200 | 36,300 | 26.1% |
| | | | |
| **Arolwg 30/9/25** | 140,600 | 33,400 | 23.7% |


[Gallu pobl tair oed neu hŷn i siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn oedran, 2011 a 2021]
[Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn]

## 3.3 Cymraeg yn sirol a lleol

Dengys y map isod y dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg Sir Wrecsam yn ôl canrannau. Gwelir bod yr adrannau mwyaf Seisnigaidd ar y ffin â Lloegr ac mewn rhannau o ddinas Wrecsam a'r cyffiniau, a threfi megis Cefn Mawr a Rhiwabon.

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG) Rhosllannerchrugog a de Johnstown y ceir y canran uchaf o siaradwyr Cymraeg (20.1%).

Yr AGEHG gyda'r canran isaf o siaradwyr Cymraeg yw Bangor Is-coed, Owrtyn a Llannerch Banna (7.9%).





[Welsh speaking ability - Census Maps, ONS]

### 3.4 Sgiliau ehangach yn y Gymraeg

Atebodd ymatebwyr i gyfrifiad 2021 am eu gallu i ddeall Cymraeg llafar.  Yn Sir Wrecsam, nododd 5% o'r boblogaeth eu bod yn gallu deall Cymraeg, yn ogystal â'r 12% a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Siart gan Fentrau Iaith Cymru.




Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn Sir Wrecsam yn gwahaniaethu'n fawr yn ôl oedran. Fel y dengys y tabl isod, yn ôl Cyfrifiad 2021 mae 27.6% o blant 5-15 oed yn gallu siarad Cymraeg. Yn anffodus mae'r ffigwr hwn yn gostwng i 10.9% ar gyfer y grŵp oedran 20-44 a thipyn yn is ar gyfer y grŵp oedran 45-64, sef 7.0%. Mae cynnydd i'w weld eto yn y canran siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oedran dros 65, gyda 7.9% rhwng 65 1 74 oed, a 10.6% dros 75 oed.

[Gallu pobl tair oed neu hŷn i siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn oedran, 2011 a 2021]

**Sir Wrecsam**

| Grŵp Oedran | % siaradwyr Cymraeg 2001 | % siaradwyr Cymraeg 2011 | % siaradwyr Cymraeg 2021 | Nifer siaradwyr Cymraeg 2001 | Nifer siaradwyr Cymraeg 2011 | Nifer siaradwyr Cymraeg 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pawb dros 3 oed | 14.6 | 12.9 | 12.2 | 18,105 | 16,659 | 15,956 |
| 3-4 oed | 11.3 | 15.4 | 11.6 | 344 | 526 | 345 |
| 5-15 oed | 32.1 | 31.0 | 27.6 | 5,724 | 5,271 | 4,928 |
| 16-19 oed | 18.9 | 19.9 | 21.7 | 1,239 | 1,277 | 1,234 |
| 20-44 oed | 9.3 | 9.2 | 10.9 | 4,075 | 4,068 | 4,395 |
| 45-64 oed | 10.5 | 8.0 | 7.0 | 3,381 | 2,844 | 2,555 |
| 65-74 oed | 14.7 | 10.0 | 7.9 | 1,576 | 1,249 | 1,193 |
| 75+ oed | 17.9 | 13.8 | 10.6 | 1,766 | 1,424 | 1,306 |

Fel y gwelir, ceir y canrannau mwyaf yn medru'r Gymraeg yn y grŵp oedran 5-15. Ond gwelwyd lleihad o 453 o blant rhwng 2001 a 2011, a 343 o blant rhwng 2011 a 2021. Mae hyn yn awgrymu gostyngiad yn y ganran dros gyfnod o ugain mlynedd o 32.1% i 27.6%.

Roedd cynnydd yn y grŵp oedran 3-4 oed, o 11.3% i 15.4%, rhwng 2001 a 2011 yn galonogol. Yn anffodus, mae'r canran wedi lleihau eto rhwng 2011 a 2021 i 11.6%.

Gwelir cynnydd bob degawd yng nghanran y grŵp oedran 16-19 oed, o 18.9% yn 2001, i 19.9% yn 2011, i 21.7% yn 2021.

Mae'r cynnydd o 9.2% yn 2011 i 10.9% yn 2021 yn y grŵp oedran 20-44 yn galonogol. Dyma'r grŵp oedran wrth gwrs fyddai'n debygol o fagu teulu a bod mewn sefyllfa i allu trosglwyddo'r iaith i'w plant.

Nodir gyda thristwch y dirywiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ym mhob grŵp oedran dros 45 rhwng 2011 a 2021.

Gwelir colled o 1.0% (289 person) yn y grŵp oedran 45-64 dros y degawd, colled o 2.1% (56 person) yr y grŵp oedran 65-74 a cholled o 3.2% (118 person) yr y grŵp oedran 75+.


## 3.5 Effaith mudo ar gymunedau

Yn y cyfrifiad diweddaraf, dywedodd tua 91,800 o drigolion Wrecsam eu bod wedi'u geni yng Nghymru. Roedd hyn yn cynrychioli 67.9% o'r boblogaeth.  Mae'r nifer wedi gostwng o ychydig o dan 93,400 (69.2% o’r boblogaeth) yn 2011.

Roedd ychydig o dan 31,400 (23.2%) o drigolion Wrecsam yn nodi Lloegr fel eu gwlad enedigol. Roedd y ffigur hwn i lawr o tua 31,500 yn 2011, a oedd ar y pryd yn cynrychioli 23.4% o boblogaeth Wrecsam.


Cododd nifer trigolion Wrecsam a anwyd yng Ngwlad Pwyl o ychydig o dan 2,700 yn 2011 (2.0% o'r boblogaeth) i ychydig dros 3,500 yn 2021 (2.6%).

Mae’r siart isod yn dangos y newid yn ffigurau gwlad geni ar gyfer y pedair gwlad a adroddwyd fwyaf gan drigolion Wrecsam yn y ddau gyfrifiad diwethaf.
[How life has changed in Wrexham: Census 2021]



Gwelir yn y siart isod yr holl fannau geni adroddwyd gan drigolion Sir Wrecsam yn 2021.

Siart gan Fentrau Iaith Cymru..




Gwelir isod bod 15.7% (13,863) o drigolion Sir Wrecsam gafodd eu geni yng Nghymru, yn gallu siarad Cymraeg.

**Canran a nifer y bobl 3+ oed yn ôl gwlad enedigol, sy'n gallu siarad Cymraeg – Wrecsam gyfan (2021)**

| | Cymru | Lloegr | Y DU | Y DU, tu allan i Gymru | Ewropeaidd eraill | Y tu allan i wledydd Ewrop |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y siaradwyr Cymraeg | 86.9% | 10.4% | 97.6% | 10.7% | 1.6% | 0.8% |
| Canran y bobl | 15.7% | 5.3% | 12.9% | 5.3% | 3.6% | 3.5% |
| Nifer y bobl | 13,863 | 1,663 | 15,573 | 1,710 | 260 | 120 |


Nid yw'r categorïau'n gyfyngedig felly efallai na fydd y canrannau'n cyfateb i 100.

[Dashfwrdd Data: Pwy sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru?]


### 3.6 Hunaniaeth Genedlaethol a Gallu'r Gymraeg

O blith trigolion Wrecsam, roedd 50.2% yn nodi eu hunain fel "Cymreig yn unig" yn 2021, i lawr o 52.0% yn 2011.
Disgrifiodd 8.0% o bobl eu hunain fel "Cymreig a Phrydeinig yn unig"; cynnydd ers y 6.8% yn 2011. Gwelir cynnydd hefyd yn y canran a nododd eu hunain fel "Prydeinig yn unig" o 17.5% yn 2011 i 18.8% yn 2021.
How life has changed in Wrexham: Census 2021

Gwelir yn y siart isod y newid mewn canran gwahanol hunaniaethau cenedlaethol yn Sir Wrecsam rhwng 2011 a 2021.



Dengys y graff isod canran y bobl 3+ oed roedd yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl hunaniaeth genedlaethol yn Sir Wrecsam yn 2021.
[Dashfwrdd Data: Pwy sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru?]




A gwelir isod canran y siaradwyr Cymraeg, canran y bobl, a nifer y bobl 3+ oed yn ôl hunaniaeth genedlaethol, roedd yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Wrecsam yn 2021.

| | Cymreig yn unig | Cymreig a Phrydeinig yn unig | Prydeinig yn unig | Seisnig yn unig | Seisnig a Phrydeinig yn unig | Unrhyw gyfuniad arall o hunaniaeth au'r DU | O leiaf un hunaniaeth o'r DU ac un hunaniaeth heb fod o'r DU | Hunaniaeth heb fod o'r DU yn unig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y siaradwyr Cymraeg | 71.9% | 9.4% | 9.4% | 2.8% | 0.7% | 2.1% | 1.4% | 2.3% |
| Canran y bobl | 17.6% | 14.4% | 5.9% | 2.8% | 3.8% | 11.2% | 16.3% | 4.6% |
| Nifer y bobl | 11.478 | 1,507 | 1.492 | 448 | 107 | 332 | 225 | 336 |

# 4. Y Ffit Strategol

## 4.1 Cyflwyniad

Mae strategaeth gyfredol Llywodraeth Cymru **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr** yn strategaeth uchelgeisiol sydd am weld canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, gynyddu i 20% erbyn 2050. Erbyn y flwyddyn 2050 y nod yw gweld Cymru ble: *"Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymr*u."

Ceir 3 Thema Strategol o fewn y Strategaeth:
1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

ac yna nifer o dargedau penodol o fewn y themâu gan gynnwys:
- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050

Gwelwyd y strategaeth yma:
Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Gwelwyd yr adroddiad blynyddol diweddaraf (blwyddyn ariannol 2023-24) yma:
Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr - adroddiad blynyddol 2023 i 2024

## 4.2 Rôl Menter Iaith Fflint a Wrecsam

Yn debyg i'r rhan fwyaf o'r Mentrau Iaith mae'r rhan fwyaf o waith Menter Iaith Fflint a Wrecsam yn disgyn o fewn Thema 2 Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, o dan y targed "Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050". Serch hynny oherwydd natur ieithyddol yr ardal mae rhywfaint o waith yn canolbwyntio ar thema 1 hefyd.

Wrth lunio ein Hamcanion Strategol a Rhaglenni Gwaith rydym hefyd yn ystyried:
- Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026
  Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
  Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol: yr hanfodion
- Cynlluniau Strategol Y Gymraeg mewn Addysg a Strategaethau Hyrwyddo'r Gymraeg CBS Wrecsam
  - Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-2027
  - Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg 2022-2031

- Strategaethau mudiadau eraill sydd yn weithredol ym maes hyrwyddo'r Gymraeg megis Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru a Chymraeg i Oedolion ac amryw femorandwm o ddealltwriaeth rhwng y Mentrau Iaith a Mudiadau eraill (megis Yr Urdd a Mudiad Meithrin)

### 4.2.1 Cyd Gynllunio

Mae cydweithio effeithiol rhwng yr holl bartneriaid sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn flaenoriaeth gennym. Yn siroedd y Fflint a Wrecsam mae cynrychiolwyr yr amrywiol fudiadau perthnasol yn cyfarfod fel Fforwm Iaith i'r perwyl hwn a Menter Iaith Fflint a Wrecsam sydd yn gyfrifol am Gadeirio'r cyfarfodydd ac am eu cydlynu. Yn 2026 fe aethom ati gyda'r aelodau eraill, i ddiweddaru a mabwysiadu Gorchwyl Gwaith y fforwm sydd yn gosod cyfeiriad mwy strategol i'r Fforwm ac yn cynorthwyo'r aelodau wrth iddynt ymdrechu i:

1. gefnogi a hwyluso gwaith ei gilydd
2. gryfhau a grymuso'r sefydliadau hynny sydd eisoes yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr
3. weithio tuag at gyflawni amcanion strategaethau hybu'r ddwy sir.
4. gyd-drafod a rhannu syniadau ac arferion da mewn perthynas â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
5. ganfod bylchau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ystod o feysydd, a llunio strategaethau a gweithgareddau perthnasol i gwrdd â'r angen
6. sicrhau nad oes unrhyw elfen o'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei ddyblygu'n ddiangen

### 4.2.2 Aelodaeth y Fforwm Iaith

Mae aelodaeth y Fforwm Iaith yn hyblyg ac yn agored i gynulleidfa eang. Mae croeso i unrhyw fudiad o fewn y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, sydd yn darparu gwasanaeth Cymraeg; sydd â diddordeb datblygu cyfleoedd Cymraeg; neu sydd â dyletswyddau i ddarparu'r cyfleoedd yma, ymuno â'r Fforwm.

Ar hyn o bryd mae gan bob un o'r mudiadau / cyrff / sefydliadau canlynol hawl i enwebu cynrychiolydd i fod yn aelod o Fforwm Iaith Fflint Wrecsam a chynhelir adolygiad o'r aelodaeth yn flynyddol.

1. Menter Iaith Fflint a Wrecsam
2. Prifysgol Wrecsam
3. Coleg Cambria
4. Dysgu Cymraeg yn y Gogledd Ddwyrain
5. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
6. Cyngor Sir y Fflint
7. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
8. Merched y Wawr
9. Mudiad Meithrin
10. Cymraeg i Blant
11. Rhieni Dros Addysg Gymraeg
12. Urdd Gobaith Cymru
13. Theatr Clwyd

14. FLVC
15. AVOW
16. Clwb Clebran Wrecsam
17. Siarter Iaith Sir y Fflint a Wrecsam
18. Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg
19. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
20. Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru

### 4.3 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022 – 2027 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Fel pob un o'r cynghorau sir yng Nghymru mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gydymffurfio â'r Safonau a osodwyd arnynt o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 - y Mesur sydd yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Nod y Safonau yw parhau a datblygu gwaith y Cynlluniau Iaith Gymraeg gan:

- wella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- gynyddu'r defnydd a wneir gan bobl o wasanaethau Cymraeg.
- egluro i sefydliadau beth mae angen iddynt ei wneud yn nhermau'r Gymraeg

Yn unol â Safon 145, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg mae gan y Cyngor strategaeth 5 mlynedd, sy'n nodi sut y byddant yn hyrwyddo'r Gymraeg er lles cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol a sut y byddant yn hyrwyddo a hwyluso'r iaith Gymraeg yn ehangach yn eu hardal.

Yn ôl y ddogfen honno, yn hytrach na nodau, mae'r strategaeth yn amlinellu themâu ar gyfer cefnogi a chynyddu'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol.
Y themâu yw:
Thema 1: Cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg
Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
Thema 3: Creu amodau ffafriol ar gyfer llwyddiant
ac maent am wneud hyn drwy gyflawni'r amcanion a ganlyn

i) Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
ii) Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
Creu amodau ffafriol ar gyfer llwyddiant

Mae un Targed Cyffredinol:

**Cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod oes y Strategaeth hon:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod oes y Strategaeth hon | Cyfrifiad 2001<br><br>14.4% o'r boblogaeth yn rhugl yn y Gymraeg | Cyfrifiad 2011<br><br>12.9% o'r boblogaeth yn rhugl yn y Gymraeg | Cyfrifiad 2021<br><br>12.2% o'r boblogaeth yn rhugl yn y Gymraeg | Ar ôl 5 mlynedd (2027)<br><br>12.9% |

Ceir copi o’r Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg 2022 - 2027 isod:
Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg 2022-2027

Mae’r Cyngor yn adrodd am sgiliau iaith eu staff bob blwyddyn. Yn 2024-25 roedd 94 aelod staff (2.9%) allan o 3,213 gweithwyr y Cyngor (ac eithrio gweithwyr addysg yn yr ysgol) gyda sgiliau Cymraeg Lefel 3+.
Adroddiad Blynyddol y Gymraeg (Drafft) 2024/25

Mae gan Gyngor Sir Wrecsam swyddog penodol sy’n gyfrifol am yr iaith Gymraeg o fewn y Cyngor.

**Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg 2022-2031**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg fanwl a chynhwysfawr. Yn ôl y ‘Weledigaeth’ yng nghyflwyniad y cynllun mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ymrwymo i ddatblygu ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Maent yn anelu at gynyddu capasiti lleoedd cyfrwng Cymraeg ar draws lledaeniad y cyfnodau cynradd ac uwchradd a hefyd yn anelu at ddarparu llwybr clir i bob dysgwr allu datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn iddynt fod yn ddinasyddion a gweithwyr y dyfodol dwyieithog.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu targed pegwn is a phegwn uwch ar gyfer Wrecsam. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd 8 pwynt canran (pegwn is) a chynnydd 12 pwynt canran (pegwn uwch) yn nifer y disgyblion Blwyddyn 1 sy’n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Tra dylid trin y pegwn is fel yr isafswm i’w gyrraedd, ni ddylid trin y pegwn uchaf fel uchafswm.

Felly, targed CBS Wrecsam yw cynyddu nifer y disgyblion Blwyddyn 1 sy’n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i rywfaint rhwng 360 a 425 dros gyfnod deng mlynedd y cynllun.

| | Disgyblion 2019/20 | Targed 2030/31 Pegwn is | Targed 2030/31 Pegwn uwch |
|---|---|---|---|
| Nifer | 235 | 360 | 425 |
| Canran (%) | 15 | 23 | 27 |

Gweler 6.2 Addysg Gynradd ac Uwchradd Cyfrwng Cymraeg am fwy o fanylion.

Ceir copi o’r Cynllun Strategol trwy’r ddolen isod:
Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg 2022-2031

## 4.4 Cynghorau Tref a Chymuned

Yn 2026, anfonwyd holiadur i holi am ddefnydd o’r iaith Gymraeg gan y 33 Cyngor Tref a Chymuned yn Sir Wrecsam. Cafwyd 9 ymateb.

Nododd 2 o’r ymatebion bod gan y Cyngor Bolisi Iaith Gymraeg, ac fe wnaethon nhw ddarparu copi o’u polisi.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am ddefnydd o'r Gymraeg ar eu gwefannau. Roedd 2 gyda rhai tudalennau dwyieithog, a 7 gyda gwefan yn Saesneg yn unig.

Wrth edrych ar argaeledd dogfennau dwyieithog, e.e. agendâu, cofnodion a.y.b. mae 1 cyngor yn datgan y byddent yn ymdrechu i drefnu cyfieithiad pe bai rhywun yn gofyn am un. Dydy'r 8 cyngor arall ddim yn cynnig dogfennau yn y Gymraeg.

Nid yw'r un o'r cynghorau'n cynnig cyfieithu ar y pryd.

Gofynnwyd a yw'r Cyngor yn wynebu unrhyw heriau penodol wrth gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg. Derbyniwyd amrywiaeth o ymatebion. Cyfeiriodd 4 at ddiffyg galw a'r ffaith nad yw aelodau'r Cyngor na'r clerc yn siarad Cymraeg. Roedd 4 yn rhestru cyfyngiadau ariannol, amser a diffyg adnoddau. Dydy'r olaf ddim yn wynebu heriau ar hyn o bryd.

Gofynnodd 2 gyngor am y cylchlythyr e-bost misol gan Fenter Iaith Fflint a Wrecsam.

# 5. Trosglwyddo Iaith yn y cartref

## 5.1 Cyflwyniad

Mae arbenigwyr iaith ar draws y byd yn pwysleisio mai diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref a diffyg defnydd o'r iaith o fewn y teulu yw un o'r ffactorau sy'n bennaf gyfrifol am ddirywiad iaith, ac yn hynny o beth nid yw'r Gymraeg yn eithriad. Mae Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, *Cymru 2050 - Miliwn o Siaradwyr* a nifer o brosiectau sy'n cael eu hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru yn nodi pwysigrwydd teuluoedd mewn cynllunio ieithyddol. Serch hynny dylid nodi bod defnydd o iaith a'i throsglwyddo yn faterion cymhleth a phersonol iawn, yn llawn haenau. Gall gogwydd siaradwyr tuag at ddefnydd o'r fath o iaith newid dros amser. Nad yw unrhyw ddylanwad polisi unigol yn debygol o arwain at gynnydd yn lefel trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu heb roi sylw dyledus i ffactorau perthnasol eraill. Rhaid ystyried yr amrywiaeth o brofiadau disgyblion (yn enwedig y rhai o gartrefi di-gymraeg) mewn ysgolion Cymraeg ac i ba raddau y mae disgyblion yn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith ar ôl y diwrnod ysgol ac ar ôl gadael ysgol yn barhaol. Mae yna ffactorau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn ardaloedd fel Sir Wrecsam, sydd yn Saesneg eu hiaith yn bennaf, lle gall defnydd o'r Gymraeg fod yn gyfyngedig i rwydweithiau cymdeithasol cul.

O ystyried hyn oll mae Strategaeth Trosglwyddo Iaith Llywodraeth Cymru yn pwysleisio 4 cam sydd yn gallu dylanwadu ar gyfraddau llwyddiant trosglwyddiad iaith:

I. Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol.
II. Ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddihyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.
III. Cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
IV. Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant


Yn amlwg mae pob un o'r camau hynny, sydd yn ganolog i lwyddiant i Strategaeth y Llywodraeth, hefyd yn hollol ganolog i strategaethau a gwaith pob dydd y Mentrau Iaith ar lawr gwlad.

I ddarllen y polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd (2021) gweler:
[WG36969]
I ddarllen yr ymchwil i'r amodau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd (2017) gweler:
[Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd]

## 5.2 Cyfradd trosglwyddo yn ôl math o deulu

Yn Sir Wrecsam mae'r gyfradd drosglwyddo mewn teuluoedd dau riant, lle gall un rhiant siarad Cymraeg yn 30.3%. Mae hyn yn golygu gostyngiad o 10.1 pwynt canran ers y 40.4% a dangosir yn 2011.

Mae'r siart isod yn dangos y canran o blant 3 – 4 oed sy'n siarad Cymraeg yn Wrecsam, ar sail math o aelwyd.




Isod gwelir y nifer a chanran o blant 3-4 oed, a'r canran sy'n siarad Cymraeg, ar sail math o aelwyd.

Canran a nifer y plant 3–4 oed sy'n byw mewn aelwydydd un-teulu yn ôl math o aelwyd, sy'n gallu siarad Cymraeg – Wrecsam gyfan (2021)

| | Aelwyd rhiant unigol | | | Aelwyd cwpl | | | | Pob aelwyd un-teulu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dim oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg | Un oedolyn sy'n gallu siarad Cymraeg | Cyfanswm | Dim oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg | Un oedolyn sy'n gallu siarad Cymraeg | Dau neu fwy o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Canran y plant 3–4 oed sy'n siarad Cymraeg | 18.2% | 10.6% | 28.8% | 24.2% | 30.3% | 16.7% | 71.2% | 100.0% |
| Canran y plant 3–4 oed | 7.8% | 43.8% | 11.2% | 5.1% | 35.7% | 68.8% | 12.3% | 11.9% |
| Nifer y plant 3–4 oed | 60 | 35 | 95 | 80 | 100 | 55 | 235 | 330 |

[Dashfwrdd Data: Pwy sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru?]

Trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r nesaf yw un o ddau faes pwysicaf cynllunio iaith - addysg yw'r llall. Mae'n annhebygol y bydd y Gymraeg yn ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol os yw'n dibynnu ar y system addysg yn unig fel modd i alluogi siaradwyr newydd i ddysgu'r iaith. Mae angen iddi fod yn iaith y cartref i gynifer o blant â phosibl - ac nid oes unrhyw amheuaeth bod dysgu'r iaith yn y modd hwn yn ffordd naturiol ac effeithiol o ddatblygu'n siaradwr Cymraeg rhugl.

# 6. Addysg

## 6.1 Blynyddoedd cynnar

### 6.1.1 Cymraeg i Blant

[Cymraeg i Blant - Mudiad Meithrin]

Mae Cymraeg i Blant yn gynllun cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru sydd yn cael ei weithredu drwy Fudiad Meithrin ac sy'n cefnogi rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant ac i ddewis gofal plant ac addysg Gymraeg.

Mae Swyddogion Cymraeg i Blant yn cynnig cyngor arbenigol, gwybodaeth a chefnogaeth i ddarpar rieni a rhieni newydd ar fuddion addysg Gymraeg a phwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i'r plentyn bach.

Gwneir hyn yn lleol trwy gynnig y grwpiau cefnogi canlynol AM DDIM:

Grŵp Tylino babi
Grŵp Ioga babi
Grŵp Arwyddo, Stori a Chân

O fewn Sir Wrecsam cynhaliwyd grwpiau Cymraeg i Blant yn Llyfrgell Coedpoeth, Llyfrgell Y Rhos a'r Stiwt, Parc Gwledig Dyfroedd Alun, Canolfan Gymunedol Hightown a'r HWB Lles yn Wrecsam. Cynhaliwyd ambell grŵp ar-lein mewn amgylchiadau megis tywydd gwael.

Gweler isod rhai ystadegau a chasglwyd gan Fudiad am deuluoedd sydd wedi defnyddio'r cynllun yn Sir Wrecsam ers 2023.

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y sesiynau | Cyfanswm Rhieni | Cyfanswm Plant |
|---|---|---|---|
| 2023-2024 | 106 | 661 | 640 |
| 2024-2025 | 129 | 609 | 596 |

### 6.1.2 Clwb Cwtsh

[Clwb Cwtsh - Learn Welsh for free with Mudiad Meithrin]

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a Mudiad Meithrin yn cydweithio i gyflwyno cyrsiau blasu Cymraeg ar gyfer rhieni / gwarchodwyr sy'n canolbwyntio ar iaith magu plant yn y cartref gyda geirfa ac ymadroddion perthnasol. Mae'r cyrsiau 8 wythnos yn rhad ac am ddim, ac wedi'i anelu at ddysgwyr newydd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2025 - 26, cynhaliwyd sesiynau Clwb Cwtsh yn y lleoliadau canlynol: Llyfrgell Wrecsam a Llyfrgell Coedpoeth. Cynhaliwyd 25 sesiwn ar-lein ar gyfer y Gogledd hefyd.

### 6.1.3 Cylchoedd Ti a Fi

[Cylch Ti a Fi - Mudiad Meithrin]()

Mae Cylch Ti a Fi yn rhoi cyfle i rieni neu warchodwyr gwrdd yn rheolaidd i fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu. Maent yn cynnig gweithgareddau sy'n helpu datblygiad plant o enedigaeth hyd at oed ysgol.

Yn Sir Wrecsam, mae cylchoedd Ti a Fi yn weithredol yn:




Mae Mudiad Meithrin yn cyflogi Swyddogion Ti a Fi Teithiol sydd yn rhedeg y sesiynau yn Hightown, Coedpoeth, Hooson a Chefn Mawr.

### 6.1.4 Cylchoedd Meithrin/Meithrin Mwy:

[Cylch Meithrin - Mudiad Meithrin]

Mae'r cylchoedd meithrin yn cynnig addysg a datblygiad plant o ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol. Mae cyfle i blant gymdeithasu a dysgu trwy chwarae dan arweiniad staff proffesiynol, cymwys a brwdfrydig.

O fewn Sir Wrecsam, mae cylchoedd meithrin yn:




Mae rhai cylchoedd yn darparu gofal cyn a/neu ar ôl ysgol i blant y dosbarth meithrin, gydag oriau amrywiol rhwng 7.45yb a 6.00yp mewn gwahanol leoliadau. Mae'r manylion yn y poster uchod. Mae Cylch Meithrin Bodhyfryd yn darparu clwb gwyliau.


Gweler isod rhai ystadegau a chasglwyd gan Fudiad Meithrin am blant yng Nghylchoedd Meithrin Sir Wrecsam ers 2015.

| Blwyddyn ysgol | Nifer lleoliadau (Nifer cylchoedd meithrin) | Nifer wedi mynychu'r cylchoedd meithrin | Nifer wedi trosglwyddo o'r cylch i ysgol | Nifer wedi trosglwyddo i Addysg Cyfrwng Cymraeg | % Dilyniant |
|---|---|---|---|---|---|
| **2015-16** | 11 (15) | 388 | 277 | 268 | 96.75% |
| **2016-17** | 12 (16) | 438 | 350 | 343 | 98.00% |
| **2017-18** | 12 (16) | 389 | 313 | 309 | 98.72% |
| **2018-19** | 13 (17) | 368 | 312 | 301 | 96.47% |
| **2019-20*** | 13 (17) | 328 | 264 | 253 | 95.83% |
| **2020-21** | 16 (17) | 401 | 271 | 255 | 94.10% |
| **2021-22** | 15 (17) | 421 | 275 | 259 | 94.18% |
| **2022-23** | 14 (16) | 388 | 254 | 232 | 91.34% |
| **2023-24** | 14 (16) | 399 | 208 | 191 | 91.83% |

***Blwyddyn gyntaf Covid - cylchoedd meithrin ar gau am dros dymor ysgol gyfan (Mawrth 2020 tan Fedi 2020) yn ystod y cyfnod clo cyntaf, collwyd data unrhyw blant byddai wedi cychwyn yn y cylchoedd unrhyw bryd yn ystod y cyfnod yma.**

## 6.2 Addysg Gynradd ac Uwchradd Cyfrwng Cymraeg

Yn 2024/25 roedd cyfanswm o 18794 o blant yn ysgolion Sir Wrecsam (Grŵp blwyddyn Meithrin 1 i Flwyddyn 14). Roedd 2418 (12.9%) o blant yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
[Disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn ôl awdurdod lleol a grŵp blwyddyn | StatsCymru <https://stats.llyw.cymru/cy-GB/a2884870-921b-4b3e-8b07-29bb66d75f9c/filtered/7kvfmyfcwmlc?page_size=25>](https://stats.llyw.cymru/cy-GB/a2884870-921b-4b3e-8b07-29bb66d75f9c/filtered/7kvfmyfcwmlc?page_size=25)



Mae gan Sir Wrecsam 8 ysgol gynradd Gymraeg a 49 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg. Mae 1 ysgol gynradd ddwyieithog yng Nglyn Ceiriog. Mae gan y sir 9 ysgol uwchradd, gan gynnwys 1 ysgol uwchradd Gymraeg, sef Ysgol Morgan Llwyd.
Disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn ôl ysgol, awdurdod lleol, sector, math, llywodraethu ysgolion ac iaith yr ysgol, 2024/25 | StatsCymru

Ysgol Cynddelw, Glyn Ceiriog. Rhaid nodi bod mynediad i'r ddarpariaeth ffrwd ddeuol yn Ysgol Cynddelw yn parhau i fod yn hyblyg o fewn eu nifer mynediad cyhoeddedig o 18.
Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg 2022-2031

Roedd cynnydd o 12.3%, sef 265 disgybl, mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint rhwng 2021 a 2024.

| ***Ysgolion Cyfrwng Cymraeg*** | ***Nifer ar y gofrestr ar 20/04/2021*** Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg 2022-2031 | ***Disgyblion 2024/25*** Disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn ôl ysgol, awdurdod lleol, sector, math, llywodraethu ysgolion ac iaith yr ysgol, 2024/25 \| StatsCymru | ***Newid*** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Min y Ddôl, Cefn Mawr | 94 | 124 | +30 |
| Ysgol Gynradd Bryn Tabor, Coedpoeth | 234 | 200 | -34 |
| Ysgol Gynradd I.D.Hooson, Rhosllannerchrugog | 253 | 228 | -25 |
| Ysgol Gynradd Bod Hyfryd, Wrecsam | 313 | 280 | -33 |
| Ysgol Gynradd Plas Coch, Wrecsam | 266 | 307 | +41 |
| Ysgol Gynradd Llanarmon D.C, Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 16 | 22 | +6 |
| Ysgol Gynradd Bro Alun, Gwersyllt | 233 | 280 | +47 |
| Ysgol Gynradd Llan y Pwll, Wrecsam | - | 47 | +47 |
| Ysgol Morgan Llwyd | 744 | 930 | +186 |
| **Cyfanswm** | **2153** | **2418** | **+265** |

Mae gwybodaeth am gynlluniau'r Cyngor Sir i'w weld yn y Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg 2022 – 2031
Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg 2022-2031

Gweler 4.3 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn y ddogfen hon am fwy o fanylion hefyd.

## 6.3 Addysg Bellach

**Nodwch fod y canlynol yn dyddio o 2021. Rydym yn disgwyl diweddariad gan Goleg Cambria (Gorffennaf 2026).**

Sefydlwyd Coleg Cambria yn 2013 yn dilyn cyfuno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl. Mae'r coleg yn gweithredu ar 7 safle (gan gynnwys un yng nghyfleuster gweithgynhyrchu Airbus, Brychdyn, ac un yn CEM Berwyn yn Wrecsam). Ers 2013 mae'r Strategaeth Ystadau wedi darparu rhaglen i wella ansawdd adnoddau'r Coleg. Mae safle Iâl Cambria yn cael ei ailddatblygu gydag adeilad tri llawr newydd i gynnwys neuadd gynadledda gyda 200 sedd, ceginau a bwyty hyfforddi newydd, man astudio o'r radd flaenaf, man chwaraeon chwyldroadol ac ystafelloedd TG. Mae hefyd hwb cymunedol newydd ar safle Llysfasi.
https://www.cambria.ac.uk/wp-content/uploads/2017/05/Annual-Report-2019-WEL-LR.pdf

Mae bellach tua 1500 o staff gan y Coleg. Mae'r Coleg yn cynnal archwiliad o sgiliau iaith Cymraeg staff, ac mae'r adroddiad diweddaraf (blwyddyn i 31/7/19) yn dangos bod canran mawr o staff gydag o leiaf sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg.
https://www.cambria.ac.uk/wp-content/uploads/2020/01/ADRODDIAD-BLYNYDDOL-SAFONAUR-GYMRAEG-201819.pdf

Yn 2018-19 roedd gan y coleg oddeutu 6,000 o fyfyrwyr llawn amser, 11,000 o fyfyrwyr rhan amser a 1,000 o staff. Dyma'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2019. Mae'r coleg yn darparu cyrsiau Safon Uwch, TGAU, BTEC, Cymraeg i Oedolion, ac Addysg Uwch. Mae'r coleg hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda dros 1,000 o gyflogwyr yn lleol ac yn genedlaethol i ddarparu cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeiaeth. Mae'r Coleg yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol i ddatblygu cyfleoedd fel bod dysgwyr yn gallu cael addysg alwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â datblygu darpariaeth ei gwricwlwm ei hun i ehangu'r cyfleoedd dwyieithog.
https://www.cambria.ac.uk/wp-content/uploads/2017/05/Datganiadau-Ariannol-2018.19.pdf

Mae Coleg Cambria yn cynnig nifer o gyrsiau Cymraeg/dwyieithog. Yn ôl polisi Cymraeg y Coleg, mae gan fyfyrwyr Coleg Cambria yr hawl i gael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg, yn ogystal â'r hawl i gwblhau asesiadau ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Os bydd myfyriwr yn dymuno sefyll asesiad ysgrifenedig yn Gymraeg, bydd y coleg yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl waith cwrs, papurau arholiad a sgriptiau'n cael eu marcio yn Gymraeg. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd y coleg yn ymdrechu i sicrhau bod papurau arholiad a sgriptiau'n cael eu cyfieithu i'r Saesneg gan gyfieithydd cymwys sy'n gallu ymdrin â'r maes astudiaeth berthnasol yn hyderus. Mae'r polisi yn nodi ni fydd penderfynu cwblhau unrhyw asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithio ar ganlyniad yr asesiad na'r amser a gymerir i ddyfarnu gradd mewn unrhyw ffordd. <https://www.cambria.ac.uk/wp-content/uploads/2020/01/Welsh-Language-Policy-Welsh.pdf>

## 6.4 Addysg Uwch – Prifysgol Wrecsam

### 6.4.1 Cefndir

Mae Prifysgol Wrecsam yn sefydliad cyhoeddus sy'n gweithredu ar dri champws: y prif safle yn Wrecsam sy'n cynnwys amrywiaeth o adrannau academaidd a chyfleusterau megis y Stiwdio Recordio a chanolfan chwaraeon, ynghyd â chanolfannau penodol yn Llaneurgain sy'n canolbwyntio ar wyddorau amgylcheddol,

gwyddorau anifeiliaid ac astudiaethau ceffylau a Llanelwy sy'n arbenigo mewn optoelectroneg ac ymchwil technoleg uwch ac yn fwy diweddar rhaglenni gradd nyrsio. Mae tua 8,990 o yn y Brifysgol ac yn gyfuniad o fyfyrwyr sylfaen, israddedig ac ôl- raddedig, gydag oddeutu 585 o staff.
Mae'r prosiect Campws 2025 yn gynllun buddsoddiad gwerth £80 miliwn gan Brifysgol Wrecsam i adnewyddu a datblygu adnoddau'r campysau amrywiol, gan ddarparu amgylchedd dysgu blaengar i fyfyrwyr. Mae'r cynllun yn cynnwys Canolfan Peirianneg, Optoelectroneg a Gweithgynhyrchu a elwir yn CanfodAu ar gampws Plas Coch - a gefnogir hefyd gan £11.55 m drwy'r Cytundeb Twf Gogledd Cymru - i hwyluso ymchwil mewn deunyddiau golau, cyfansoddion ysgafn a thechnoleg hydrogen. Yn ddiweddar, agorwyd Ardal Arloesi Iechyd a Gofal gyda thechnolegau addysgu rhithwir a gofodau fel labordai Hydra a mannau astudio newydd.

### 6.4.2 Polisi'r Gymraeg

Mae Prifysgol Wrecsam o dan ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'u gorfodir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fel darparwr addysg, mae gan y Brifysgol hefyd ddyletswydd i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith nid yn unig ymhlith ein gweithwyr a'n myfyrwyr ein hunain ond hefyd gyda'n rhanddeiliaid allanol eraill. Caiff cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ei fonitro drwy strwythur pwyllgor ffurfiol y Brifysgol: Pwyllgor Monitro'r Gymraeg sy'n cyfarfod tair gwaith y flwyddyn. Mae'r cyfrifoldeb dros fonitro cydymffurfiaeth yn gorwedd gyda Chynghorydd Cyffredinol a Chofrestrydd y Brifysgol, ac mae'r cyfrifoldeb dros hyrwyddo'r defnydd o'r iaith a'i hintegreiddio yng nghwricwlwm a dulliau addysgol y Brifysgol yn gorwedd gyda'r Dirprwy Is-ganghellor dros y Gymraeg Threftadaeth a Diwylliant.

### 6.4.3 Strategaeth CYFLE

Cyn 2022, nid oedd fframwaith na chynllun clir ar waith i fonitro datblygiad ac ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg o safbwynt credydau academaidd neu i fonitro datblygiadau'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm.
Roedd yn amlwg, drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a thrwy arsylwi ar dueddiadau yn y sector iechyd, bod galw cynyddol am fwy o therapyddion iaith a lleferydd sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y diffyg hwn yn peri her sylweddol i wasanaethau iechyd yng Nghymru, yn enwedig o ran darparu gofal sensitif i gleifion Cymraeg eu hiaith.
O ganlyniad, Fodd bynnag, mae ysgogiad sylweddol wedi deillio o'r datblygiadau diweddar
Ysgogodd hyn y Brifysgol i ddatblygu darpariaeth academaidd benodol drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes rhaglenni iechyd, lle mae'r Brifysgol wedi neilltuo lleoedd penodedig i fyfyrwyr Cymraeg mewn rhaglenni megis Therapi Iaith a Lleferydd. Roedd hyn, nid yn unig yn ymateb i alw proffesiynol, ond hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at genhadaeth ehangach y Brifysgol i wasanaethu ei chymuned leol a chenedlaethol. Mae'r effaith gadarnhaol ar y sector yn dangos gwerth strategol y Gymraeg fel cyfrwng academaidd, ac yn tanlinellu rôl y Brifysgol fel sefydliad sy'n ymateb i anghenion cymdeithasol, ieithyddol a galwedigaethol Cymru. Mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau Strategaeth Y Llywodraeth, Mwy na Geiriau. Mae hefyd wedi dangos potensial ar gyfer cydweithio strategol pellach gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei chynllunio'n fwriadol, ei monitro'n effeithiol, ac yn cael ei datblygu'n unol â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

Mae CYFLE strategaeth ar gyfer ehangu a datblygu'r Gymraeg fel rhan o gynllun ehangach i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym Mhrifysgol Wrecsam. Lluniwyd y strategaeth yn 2022 gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn adolygu a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn y brifysgol.
Mae CYFLE bellach yn strategaeth fyw, sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at ddod â'r Gymraeg yn fyw ym Mhrifysgol Wrecsam.

#### 6.4.4 Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae Prifysgol Wrecsam yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg mewn lle yn y brifysgol. Mae Cangen y Coleg Cymraeg yn gweithredu fel pont cyfathrebu rhwng y Coleg a staff a myfyrwyr Cymraeg y brifysgol lle materion Cymraeg yn cael eu trafod a'u gweithredu o ddydd i ddydd. Mae gan fyfyrwyr Cymraeg Prifysgol Wrecsam y cyfle i wneud cais am ysgoloriaethau drwy'r Coleg yn ogystal ag eistedd y dystysgrif sgiliau iaith a dod yn llysgenhadon ar gyfer y Brifysgol.

#### 6.4.5 Sgiliau Iaith

Mae'r rhaglen genedlaethol CYMRAEG GWAITH yn cael ei gynnig i bob staff yn y brifysgol ac mae dros 40 o staff wedi cofrestru ar y rhaglen ar draws lefelau amrywiol o hyfedredd. Mae myfyrwyr y brifysgol yn ogystal yn cael y cyfle i ddilyn llwybrau Cymraeg yn y Gweithle gyda modiwlau mwy penodol ac arbenigol yn y meysydd plismona, waith cymdeithasol ac iechyd perthynol.

### 6.5 Cymraeg i Oedolion

**Nodwch fod y canlynol yn dyddio o 2021. Rydym yn disgwyl diweddariad gan Goleg Cambria (Gorffennaf 2026).**

Mae partneriaeth rhwng Coleg Cambria a chwmni Popeth Cymraeg yn darparu cyrsiau Dysgu Cymraeg ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn ardaloedd Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych.
https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/darparwyr-cyrsiau/coleg-cambriapopeth-cymraeg/

Mae'r mwyafrif o'n cyrsiau yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau rhithiol ar hyn o bryd. Mae'n bosib bydd rhai cyrsiau yn trosglwyddo i ddosbarth go iawn pan fydd y sefyllfa yn caniatáu.
https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/dod-o-hyd-i-gwrs/

Mae 49 Cwrs ar-lein dros y 3 sir.

- 3 Blasu
- 21 Mynediad
- 7 Sylfaen
- 6 Canolradd
- 11 Uwch
- 1 Hyfedredd


Cyn Covid-19 roedd y ddarpariaeth yn eang iawn ym mhob sir i geisio ymateb i anghenion amrywiol dysgwyr o safbwynt lefelau, lleoliadau, amserau a dulliau dysgu.

Er enghraifft, yn Sir Wrecsam roedd tua 35 cwrs ar gael, o bob lefel, mewn 6 lleoliad yn 2018.

## 7. Iechyd a Lles

Yn 2021, disgrifiodd 45.5% o drigolion Wrecsam eu hiechyd fel "da iawn", yr un lefel ag yn 2011. Cododd y rhai a ddisgrifiodd eu hiechyd fel "da" o 32.9% i 34.2%. Roedd cyfran trigolion Wrecsam a ddisgrifiodd eu hiechyd fel "drwg iawn" yn 1.3% (yn debyg i 2011), tra gostyngodd y rhai a ddisgrifiodd eu hiechyd fel "drwg" o 5.2% i 4.8%.

Mae'r data hwn yn adlewyrchu barn pobl eu hunain wrth ddisgrifio eu hiechyd cyffredinol ar raddfa pum pwynt, o dda iawn i ddrwg iawn.
Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19). Efallai bod hyn wedi dylanwadu ar sut roedd pobl yn canfod ac yn graddio eu hiechyd, ac felly efallai ei fod wedi effeithio ar sut roedd pobl yn dewis ymateb.




[How life has changed in Wrexham: Census 2021]

## 8. Y Gweithle a'r Economi

### 8.1 Cyflwyniad

Mae Sir Wrecsam yn ffinio â siroedd Fflint, Dinbych, Powys, Caer a Swydd Amwythig.


Mae'r sir yn amrywio'n fawr o ran ei llewyrch economaidd gyda rhai wardiau ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (e.e. Queensway, Wynnstay a Phlas Madoc) a wardiau eraill ymhlith y 10% lleiaf difreintiedig (e.e. Marford/Hoseley, Rhosnesi a Pharc Borras).
Malc - Wrecsam <https://wimd.gov.wales/geography/la/W06000006?lang=cy>

Yn hanesyddol, roedd economi Wrecsam wedi ei ddominyddu gan ddiwydiannau trwm traddodiadol, ond erbyn hyn, mae'r sir wedi ei drawsffurfio i fod yn brif

ganolbwynt gweithgynhyrchu, technoleg a gwasanaethau gyda chwmnïau fel Kellogs, JCB a Moneypenny wedi eu lleoli yno.

## 8.2 Y Gweithlu

Dengys y siart isod ar gyfer 2024, bod mwyafrif y gweithlu yn gweithio yn y sectorau Gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (13,500) a Gweithgynhyrchu (12,000).
[Swyddi gweithwyr yn ôl diwydiant, awdurdod lleol Cymru, rhanbarth Lloegr a gwledydd Prydain | StatsCymru]




Yn y flwyddyn daeth i ben 31/3/25, roedd canran y boblogaeth roedd yn economaidd weithredol (80.5%), yn uwch na chyfartaledd Cymru (76.1%) ac yn uwch na chyfartaledd Y Deyrnas Unedig (78.4%).
[Cyfradd gweithgarwch economaidd yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhyw]

## 8.3 Diweithdra


Yn y flwyddyn daeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, roedd y gyfradd diweithdra (pobl yn chwilio am waith) ar gyfer pobl 16+ oed yn 2.9%.  Er ei bod wedi codi ers blwyddyn ynghynt, roedd hyn dal yn is na'r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan.
[https://www.ons.gov.uk/visualisations/labourmarketlocal/W06000006/](https://www.ons.gov.uk/visualisations/labourmarketlocal/W06000006/)

## 8.4 Diwydiant, Galwedigaethau a Siaradwyr Cymraeg

Gwybodaeth o:
Dashfwrdd Data: Pwy sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru?

Gwelwyd y nifer a chanran mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y sector Addysg a'r sector Iechyd a Gwaith Cymdeithasol yn Sir Wrecsam yn ôl ystadegau'r cyfrifiad 2021.

Roedd 4,560 o siaradwyr Cymraeg yn ddi-waith. Rhaid cofio bod y mwyafrif o'r 1,234 person rhwng 16 a 19 oed yn debygol dal yn y system addysg, a'r 2,499 dros 65 oed yn debygol wedi ymddeol.




| | Nifer |
|---|---|
| Amaethyddiaeth, ynni a dŵr | 234 |
| Gweithgynhyrchu | 565 |
| Masnach cyfanwerthu, manwerthu a moduron | 731 |
| Cludiant a storio | 163 |
| Adeiladu | 413 |
| Gweithgareddau gwasanaethau, llety a bwyd | 273 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 132 |
| Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 130 |
| Gweithgareddau eiddo tirol | 49 |
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 234 |
| Gweithgareddau gwasanaethau gweinyddol a chefnogaeth | 240 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn | 598 |
| Addysg | 1053 |
| Gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol | 1039 |
| Arall | 266 |
| Di-waith | 4560 |

| DIWYDIANT | Canran Y Bobl | Canran y Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, ynni a dŵr | 11.8% | 2.2% |
| Gweithgynhyrchu | 5.8% | 5.3% |
| Masnach cyfanwerthu, manwerthu a moduron | 8.1% | 6.8% |
| Cludiant a storio | 6.6% | 1.5% |
| Adeiladu | 8.3% | 3.9% |
| Gweithgareddau gwasanaethau, llety a bwyd | 10.6% | 2.6% |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 10.0% | 1.2% |
| Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 9.2% | 1.2% |
| Gweithgareddau eiddo tirol | 8.6% | 0.5% |
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 10.4% | 2.2% |
| Gweithgareddau gwasanaethau gweinyddol a chefnogaeth | 7.8% | 2.2% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn | 14.4% | 5.6% |
| Addysg | 19.8% | 9.9% |
| Gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol | 9.9% | 9.7% |
| Arall | 11.1% | 2.5% |
| Di-waith | 9.4% | 42.7% |


Mae'r tabl isod, o'r un ffynhonnell, yn dangos mai'r sector sy'n denu'r nifer a chanran mwyaf o siaradwyr Cymraeg yw Galwedigaethau Proffesiynol gyda 1,786 person.

| | Canran y Siaradwyr Cymraeg | Canran y Bobl | Nifer y Bobl |
|---|---|---|---|
| Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion | 4.5% | 8.1% | 486 |
| Galwedigaethau proffesiynol | 13.6% | 15.0% | 1454 |
| Galwedigaethau proffesiynol technegol cysylltiedig | 7.8% | 12.6% | 836 |
| Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol | 5.4% | 10.0% | 577 |
| Galwedigaethau crefftau medrus | 6.0% | 8.6% | 645 |
| Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaeth arall | 7.2% | 10.8% | 764 |
| Galwedigaethau gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid | 4.3% | 9.7% | 456 |
| Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau | 3.7% | 5.5% | 392 |
| Gweithgareddau elfennol | 4.8% | 7.0% | 512 |
| Di-waith | 42.7% | 9.4% | 4560 |

## 8.5 Incwm

Mae enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn Sir Wrecsam wedi amrywio wrth gymharu â ffigyrau Cymru bob blwyddyn ers 2016. Gwelir y graff isod:

[Enillion wythnosol a fesul awr gros cyfartalog (canolrif) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru, rhanbarthau Lloegr, gwledydd y DU a blwyddyn (£) | StatsCymru]





## 8.6 Defnydd Iaith Mewn Busnesau

Mae Menter Iaith Fflint a Wrecsam yn cefnogi busnesau fel rhan o'u gwaith ar lawr gwlad. Maent yn hyrwyddo gwasanaeth cynghori a chyfieithu ar-lein Helo Blod | Helo Blod, a chynllun Hapus i Siarad | Y Mentrau Iaith sydd yn annog siaradwyr Cymraeg newydd i ddechrau sgwrs yn y Gymraeg mewn busnesau lleol.

# 9. Tai ac Aelwydydd

## 9.1 Aelwydydd

Gwelir bod y nifer o aelwydydd yn Sir Wrecsam wedi cynyddu ers 2016.
[Amcangyfrifon aelwydydd yn ôl awdurdod lleol a math o aelwyd | StatsCymru]





### 9.1.1 Cyfansoddiad y Cartref

Roedd 59,596 aelwyd yn Sir Wrecsam yn 2024. Mae'r tabl isod yn dangos eu cyfansoddiad.
[Amcangyfrifon aelwydydd yn ôl awdurdod lleol a math o aelwyd | StatsCymru]

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aelwyd un person | | | 18,466 |
| | | | |
| Aelwydydd dim plant | 2 person dim plant | 18,661 | |
| | 3 person dim plant | 4,104 | |
| | 4 person dim plant | 1,233 | |
| | 5 person neu fwy, dim plant | 257 | |
| Cyfanswm aelwydydd dim plant | | | 24,255 |
| | | | |
| Aelwydydd rhiant unigol | | | 4,634 |
| | | | |
| Aelwydydd 2 neu fwy o oedolion gyda phlant | | | 12,241 |

## 9.2 Daliadaeth / Preswylwyr eiddo

Mae'r siart isod yn dangos amcangyfrifon stoc anheddau yn ôl deiliadaeth ar gyfer Sir Wrecsam ar 31ain Mawrth 2024.
Amcangyfrifon stoc anheddau yn ôl deiliadaeth ac ardal awdurdod lleol | StatsCymru




## 9.3 Y farchnad dai

### 9.3.1 Pris Tai Cyfartalog

Yn ystod y flwyddyn Chwefror 2025 i Chwefror 2026, gwelwyd codiad o 2.5% mewn prisiau tai yng Nghymru.  Yn Sir Wrecsam, gwelwyd codiad o 1.9% ar gyfartaledd.

Ym mis Chwefror 2026, y pris ar gyfartaledd ar gyfer gwahanol fathau o eiddo yn Sir Wrecsam oedd:

| | |
|---|---|
| Tŷ neu fyngalo ar wahân | £310,000 |
| Tai pâr | £194,000 |
| Tŷ Teras | £157,000 |
| Fflat neu fflat deulawr | £105,000 |

Housing prices in Wrexham

### 9.3.2 Fforddiadwyedd

Yn 2025, cost gyfartalog cartref yng Nghymru oedd £213,000, sef 6.0 gwaith yr enillon blynyddol cyfartalog. Dyma'r "cymhareb fforddiadwyedd".

Yn Sir Wrecsam, ar gyfartaledd, roedd cartref yn costio tua £195,000 gydag enillion blynyddol tua £37,000. Y gymhareb fforddiadwyedd oedd 5.26.


Rhwng 2005 a 2025, gwelwyd gostyngiad yn y gymhareb fforddiadwyedd o -1.08 yn Sir Wrecsam. Roedd hyn o ganlyniad codiad ym mhris canolrifol tŷ o 54% ac enillion canolrifol o 86% dros yr un cyfnod.
Housing affordability in England and Wales - Office for National Statistics

### 9.3.3 Treth Trafodiadau Tir

Ers 31 Mawrth 2018, mae Treth Trafodiadau Tir yn cael ei thalu wrth brynu neu'n prydlesu adeilad neu dir dros bris penodol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, y trothwy ar gyfer Treth Trafodiadau Tir yw £250,000 ar gyfer eiddo preswyl a brynir ar y prif gyfraddau a £225,000 ar gyfer tir ac eiddo amhreswyl.
Treth Trafodiadau Tir: trosolwg | LLYW.CYMRU

## 9.3.4 Eiddo Gwag

Mae gan bob cyngor sir yr hawl i benderfynu ar Dreth Gyngor am eiddo gwag. Mae'r siart isod yn dangos manylion y 1,978 o anheddau yn Sir Wrecsam sydd wedi'u heithrio rhag treth gyngor yn 2026-27.
[Anheddau sydd wedi'u heithrio rhag treth gyngor yn ôl awdurdod lleol a dosbarth | StatsCymru]



## 10. Gweithgareddau Cymunedol

Mae nifer o sefydliadau a mudiadau, grwpiau a rhwydweithiau cymdeithasol ar lein yn darparu gweithgarwch cymunedol Cymraeg yn Sir Wrecsam.

Ceir isod manylion am y gweithgarwch cymunedol Cymraeg yr ydym yn ymwybodol ohono yn ein hardal, oherwydd nid yw holl weithgarwch Cymraeg hyd a lled Cymru yn cael ei gofnodi gan unrhyw un ar hyn o bryd.

### 10.1 Menter Iaith Fflint a Wrecsam

"Mae'r Fenter yn bodoli er mwyn ehangu, hybu, a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn Siroedd y Fflint a Wrecsam."

Yn 2026, mae gan y Fenter 5 aelod o staff, sef:

- Prif Swyddog
- 1 x Swyddog Busnes rhan amser
- 2 x Swyddog Datblygu llawn amser
- 1 x Swyddog Datblygu rhan amser
- 1 x Swyddog Prosiect Y Sîn ar y Ffin

Mae gweithgareddau'r Fenter yn cynnwys:

- Hwyluso gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol ac addysgiadol i bobl o bob oed;
- Darparu cyfleoedd hamdden i blant a phobl ifainc;
- Hybu defnydd y Gymraeg yn y sector busnes;
- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y sector gwirfoddol;
- Cynyddu'r defnydd o'r iaith a chodi hyder siaradwyr Cymraeg;
- Darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol;
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni newydd a darpar rieni o bwysigrwydd trosglwyddiad iaith yn y cartref;
- Hyrwyddo manteision addysg Gymraeg;
- Gweithredu fel canolfan wybodaeth ac adnoddau;
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus ar gynlluniau strategol sy'n effeithio ar gyflwr yr iaith;
- Cyfrannu i strategaethau adfywio cymunedol ac economaidd;
- Hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata i godi proffil yr iaith a'r Fenter fel corff cynllunio ieithyddol.

**Menter Iaith Fflint a Wrecsam**
Corlan, Uned 3 Parc Busnes Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1XP

01352 744040
gwybod@menterfflintwrecsam.cymru

## 10.2 Urdd Gobaith Cymru

Mae eu darpariaeth yn gallu cynnwys clybiau mewn ysgolion, adrannau, uwch-adrannau ac aelwydydd. Maent hefyd yn trefnu Eisteddfodau Cylch ac Eisteddfod Sirol, cystadlaethau chwaraeon, clybiau mewn ysgolion, gweithdai, tripiau ac ymweliadau â gwersylloedd yr Urdd.

Mae gan yr Urdd ddau Swyddog yn yr Adran Ieuenctid a Chymuned sy'n gweithio yn Sir Wrecsam.

Guto Jones
Swyddog Cymunedol Sir Fflint a Wrecsam
Swyddfa'r Urdd | Uned 2 | Tŷ Panton | Neuadd Panton | Dinbych | LL16 3TL
01745818600
gutojones@urdd.org

Lowri Medi
Swyddog Ieuenctid Wrecsam
Swyddfa'r Urdd | Uned 2 | Tŷ Panton | Neuadd Panton | Dinbych | LL16 3TL
01745818600
lowrimedi@urdd.org

Mae rhagor o fanylion am ddarpariaeth Urdd Gobaith Cymru ar gael yma:
Ieuenctid a Chymuned | Urdd Gobaith Cymru

## 10.3 Clybiau Ffermwyr Ifanc

Cyn 2026, roedd gan Ffederasiwn Clybiau'r Ffermwyr Ifanc un clwb yn Sir Wrecsam, sef:

- Maelor

Ond nid yw'r clwb yn weithredol bellach.

Mae rhagor o fanylion am ddarpariaeth Ffermwyr Ifanc ar gael gan Eirlys:
Ffôn : 07301246991
Ebost : clwyd@yfc-wales.org.uk

## 10.4 Merched y Wawr

Mae canghennau a chlybiau'n cynnig cyfleoedd i fenywod o bob oedran cymdeithasu a hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod, a chael hwyl wrth wneud hynny. Maent yn ymgyrchu dros hawliau'r iaith Gymraeg a hawliau merched.

Yn 2026, mae gan Ferched y Wawr ddwy gangen yn Sir Wrecsam, sef:-

1. Cangen Dyffryn Ceiriog - 36 aelod yn 2025-26
2. Cangen Wrecsam - 41 aelod yn 2025-26

Mae rhagor o fanylion am ddarpariaeth Merched y Wawr ar gael gan:

Haf Roberts (Swyddog Datblygu yn y Gogledd Ddwyrain)
Haf@merchedywawr.com

Neu swyddfa@merchedywawr.cymru

## 10.5 Papurau Bro

Ceir dau Bapur Bro yn Sir Wrecsam, sef:

Yr Ysgub

Mae papur bro 'Yr Ysgub' yn gwasanaethu ardal eang iawn, sef ardaloedd Dyffryn Ceiriog, Tanat, Cain ac Efyrnwy a thref Croesoswallt.
Maent yn argraffu 550 copi am 10 mis y flwyddyn sydd ar gael yn y siopau lleol. Mae'n bosib derbyn copi yn y post neu ar-lein.
Manylion pellach gan Alwenna Evans alwennaevans@yahoo.co.uk

Nene

Ardal Rhosllannerchrugog, Ponciau, Johnstown a Phen-y-cae.
Golygydd: Gwynne Williams, Cil-y-ri, Lôn yr Efail, Pentrebychan, Wrecsam, LL14 4EN. Ffôn: 01978 841386
Trysorydd: Geraint Wyn Jones, Gwylfa, Allt Tŷ Gwyn, Rhosllannerchrugog, LL14 4EL. Ffôn: 01978 846151
papurbronene@btinternet.com

## 10.6 Canolfan 'Saith Seren'

**Nodwch fod y canlynol yn dyddio o 2021. Rydym yn disgwyl diweddariad gan Saith Seren (Gorffennaf 2026).**

Agorodd Canolfan Gymraeg Wrecsam, sef Canolfan 'Y Saith Seren', yn swyddogol ar 28ain Ionawr 2012. Menter gydweithredol yw'r ganolfan sydd ar agor fel tafarn.

Nod Canolfan 'Saith Seren' yw cynnig cyfle i siaradwyr Cymraeg o bob oed, a dysgwyr, ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r iaith mewn awyrgylch gymdeithasol Gymraeg a Chymreig. Y gobaith yw y daw'r ganolfan yn brif ffocws ar gyfer gweithgareddau Cymraeg y dref dros y blynyddoedd nesaf. Mae rhaglen o adloniant a gweithgareddau cymdeithasol amrywiol, gan gynnwys gigs i bobl ifanc, yn cael eu trefnu'n gyson. Mae agor y ganolfan yn enghraifft o'r gwaddol diwylliannol a adawyd yn sgil ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â thref Wrecsam yn 2011.

## 10.7 Cymdeithasau Cymraeg Eraill

Mae gan Wrecsam draddodiad hir o gynnal cymdeithasau a mudiadau Cymraeg sydd wedi cyfrannu'n helaeth i Gymreictod yr ardal. Nodir isod yr ystod eang o gymdeithasau Cymraeg sydd yn weithgar ar draws y sir yn hybu Cymreictod ac yn codi ymwybyddiaeth o'n diwylliant a'n treftadaeth gyfoethog:

### 10.7.1 Cymdeithasau Cymraeg:

| | |
|---|---|
| • Cymdeithas Lenyddol Owain Cyfeiliog, Wrecsam | Disgwyl diweddariad a manylion cyswllt |
| • Cymraeg Bro Maelor | Gwefan:<br>Cymraeg Bro Maelor \| Facebook |
| • Clwb Clebran | Gwefan:<br>Clwb Clebran Wrecsam \| Facebook |
| • Grŵp Cymraeg Y Waun a'r Ardal | Gwefan:<br>Grwp Cymraeg Y Waun A'r Ardal/Chirk & District Welsh Group \| Facebook |

### 10.7.2 Corau:

| | |
|---|---|
| • Côr Brymbo | Gwefan:<br>https://www.brymbomalechoir.co.uk/<br>https://www.facebook.com/groups/252944641424613/about |
| • Côr y Fron | Gwefan:<br>https://fronchoir.com/index.php/Home<br>https://www.facebook.com/FronMVC |
| • Côr DAW | Gwefan:<br>Côr Daw, Wrecsam/Welsh Learners' Choir Wrexham \| Facebook |
| • Côr Meibion Froncysyllte | Disgwyl diweddariad a manylion cyswllt |
| • Côr Meibion Glynceiriog | Disgwyl diweddariad a manylion cyswllt |
| • Côr Merched y Rhos | Disgwyl diweddariad a manylion cyswllt |
| • Lleisiau Clywedog | Gwefan:<br>Lleisiau Clywedog \| Facebook |
| • Lleisiau Ceiriog | Disgwyl diweddariad a manylion cyswllt |

### 10.7.3 Capeli Cymraeg:

| | |
|---|---|
| • Capel y Groes, Wrecsam | Parch Aled Lewis-Evans<br>Gwefan:<br>https://www.ebcpcw.cymru/cy/?s=capel+y+groes+wrecsam |

### 10.7.4 Eisteddfodau Lleol:

| | |
|---|---|
| • Eisteddfod y Dysgwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (bob trydedd flwyddyn – rhwng siroedd Dinbych, Fflint a Wrecsam) | Disgwyl diweddariad a manylion cyswllt |

## 10.8 Cymraeg i Oedolion

Mae Coleg Cambria yn darparu cyrsiau Dysgu Cymraeg ar gyfer dysgwyr o bob lefel ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn ardaloedd Sir y Fflint a Wrecsam.

Coleg Cambria
Ffordd Parc y Gelli
Wrecsam
LL12 7AB
01978 267596

## 10.9 Gwefannau Bro

Wrecsam360
Gwefan straeon lleol gan bobol leol ydy Wrecsam360. Mae'n blatfform digidol ar gyfer rhannu pob peth sy'n bwysig i'r gymuned leol – newyddion, chwaraeon, hanes, celfyddydau... yn wir, unrhyw beth! Gall pawb sy'n byw yn sir Wrecsam gyfrannu ati – trwy Ymuno i greu cyfrif, yna Creu > Stori. Beth am sgwennu adolygiad o gig diweddar? Neu rannu lluniau o bobol leol yn llwyddo? Neu hyd yn oed cynnal blog byw o ddigwyddiad lleol. Ewch amdani!
https://wrecsam.360.cymru

## 10.10 Rhwydweithiau cymdeithasol ar lein

Cymraeg yn y Gogledd Ddwyrain
Cymraeg yn y Gogledd Ddwyrain | Facebook

Sefydlwyd y grŵp cyhoeddus Facebook hwn yn 2016 yn dilyn bwrlwm Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint. Disgrifiad y grŵp yw “Ffordd o rannu gwybodaeth a dod o hyd i wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y Gogledd Ddwyrain”. Erbyn hyn mae mwy na dwy fil o aelodau yn dal ar y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar lein o ddydd i ddydd yn ardal Sir y Fflint, Wrecsam a Dinbych. Arni mae croeso i bobl ddechrau sgwrs a gall unigolion neu fusnesau sy'n darparu gwasanaethau Cymraeg hysbysebu.

Mae'r tudalennau a grwpiau isod hefyd yn gwasanaethu Wrecsam:

- Papur Bro 'Y Clawdd' Papur Bro 'Y Clawdd' | Facebook

- Newyddion Wrecsam [Newyddion Wrecsam | Facebook]
- Digwyddiadau Codi Arian Eisteddfod Wrecsam [Digwyddiadau Codi Arian Eisteddfod Wrecsam Fundraising Events | Facebook]

Mae hefyd tudalennau defnyddiol megis:

- Cerddoriaeth Cymraeg [Cerddoriaeth Cymraeg/Welsh Music | Facebook]
- Gigiadur Cymru [GIGIADUR CYMRU | Facebook]
- Swyddi Cymraeg [Swyddi - Hysbysfwrdd Swyddi Cymru - Lleol.cymru]

# 11. Astudiaethau perthnasol

## 11.1 SWOT

Pwrpas y fframwaith SWOT (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) isod yw ystyried ffactorau allai effeithio ar sefyllfa'r Gymraeg yn Sir Wrecsam.

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| • Mae gan Sir Wrecsam nifer o fudiadau Cymraeg sydd yn cyd-weithio o fewn fframwaith y Fforwm Sirol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.<br>• Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam berthynas eithaf da gyda Menter Iaith Fflint a Wrecsam a rhai o'r partneriaid eraill ac mae rhai adrannau a gwasanaethau yn gweithio mewn partneriaeth â'r Fenter neu bartneriaid eraill lle bo hynny'n bosibl.<br>• Traddodiad o ddathlu'r Gymraeg /diwylliant Cymru mewn rhai ardaloedd o fewn y Sir.<br>• Mae gan yr Awdurdod Addysg CSyGMA a hefyd wedi mabwysiadu'r cynlluniau Siartr Iaith a Chymraeg Campus er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant oed cynradd.<br>• Mae mwy o ymwybyddiaeth o Gymreictod yn Sir Wrecsam na Sir y Fflint.<br>• Mae presenoldeb sefydliadau pwysig fel Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Chlwb Pêl Droed Wrecsam yn cynnig cyfleoedd i hybu'r Gymraeg<br>• Mae sefydlu Canolfan y Saith Seren a Chanolfan Iaith Coleg Cambria yn rhoi cyfle iddynt weithredu fel dau ganolbwynt i weithgareddau Cymraeg yr ardal<br>• Traddodiad o grwpiau Cymraeg yn weithredol ar draws y Sir<br>• Mae gan y Cyngor Sir bolisïau i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | • Nid yw cyrff cyhoeddus a gwirfoddol yn cydweithio'n ddigon strategol i gynllunio dyfodol yr iaith yn Sir Wrecsam, gan gynnwys aelodau'r Fforwm Sirol.<br>• Nid yw'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ddigon gweithredol o ran darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a phenodi mwy o staff dwyieithog<br>• Mae'r ffaith bod rhieni'n gorliwio gallu ieithyddol eu plant (fel siaradwyr ail iaith) yn gwyrdroi gwir sefyllfa'r Gymraeg o ran y niferoedd a chanrannau sy'n medru ei siarad ar lefel sirol.<br>• Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc y sir yn colli eu sgiliau iaith ar ôl gadael y system addysg statudol.<br>• Prinder o athrawon Cymraeg eu hiaith.<br>• Prinder o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion/colegau.<br>• Diffyg statws gweledol i'r iaith yn y sectorau Preifat a Gwirfoddol – sydd yn arwain at ddiffyg defnydd.<br>• Diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.<br>• Mae rhai ardaloedd (yn enwedig ar y ffin gyda Lloegr a thref Wrecsam ei hun) gyda chanran isel iawn o siaradwyr Cymraeg.<br>• Twf canolfannau cymudwyr yn llethu cymunedau bach lle oedd y Gymraeg yn gryf ac yn golygu bod gan rhai ardaloedd gyda chanran uchel iawn o bobl sy wedi symud mewn ac sy |

| | |
|---|---|
| | heb unrhyw ddealltwriaeth neu ymwybyddiaeth bod iaith neu ddiwylliant gwahanol yng Nghymru.<br>• Nid yw'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ystyried y Gymraeg fel thema lorweddol o fewn ei bolisïau i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth gynllunio.<br>• Nid yw Adran Cynllunio CBS Wrecsam yn rhoi sylw teilwng i sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned wrth gynllunio. Mae'n bosibl bod hyn yn ganlyniad i'r nodyn cyngor technegol (TAN20) fod yn amwys.<br>• Diffyg statws gweledol i'r iaith yn y sectorau Preifat a Gwirfoddol - arwain at ddiffyg defnydd.<br>• Diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn y rhan fwyaf o'r sir.<br>• Cymharol ychydig o oedolion yn dysgu Cymraeg, a'r rhai sydd yn gwneud yn tueddu i fod yn hŷn.<br>• Cysylltedd band-eang pytiog a gwan yn rhwystro defnydd cymdeithasol rhithiol o'r Gymraeg.<br>• Nid oes gan y Fenter Iaith yr adnoddau i fod yn ddigon gweithredol ym mhob rhan o'r sir. |
| **CYFLEOEDD** | **BYGYTHIADAU** |
| • Sicrhau bod mwy o ffocws strategol i gylch gorchwyl Fforwm Iaith Fflint a Wrecsam a gwell cydweithio rhwng partneriaid a'i gilydd<br>• Byddai cyllid digonol a chylchoedd ariannu pump neu dair blynedd yn rhoi sicrwydd i'r mudiadau sydd yn gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg a chreu'r cyfle iddynt gynllunio'n strategol dros gyfnod hirach o amser ac ehangu cwmpas daearyddol y gweithgarwch.<br>• Bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r Safonau Iaith ac ehangu'r nifer o wasanaethau Cymraeg/dwyieithog<br>• Mae Canolfannau Iaith Coleg Cambria a Chanolfan y Saith Seren yn cynnig lleoliadau i gynnal gweithgareddau Cymraeg cyffrous a deniadol<br>• Adeiladu ar gryfder cymunedau naturiol Gymraeg fel Dyffryn Ceiriog a Rhosllannerchrugog<br>• Bod "Mesur Cynllunio Cymru" yn gwneud y Gymraeg yn ystyriaeth cynllunio.<br>• Posibilrwydd o newid patrwm defnydd iaith yr ifanc trwy weithredu'r Siarter Iaith a Chymraeg Campus.<br>• Diffyg gwybodaeth am y Gymraeg ymhlith mewnfudwyr/y di-Gymraeg yn golygu bod modd meithrin agwedd bositif tuag at yr iaith. | • Mudiadau sydd yn cefnogi a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn or-ddibynnol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru.<br>• Strwythur cyllido Llywodraeth Cymru, sydd yn ariannu mudiadau iaith yn annibynnol o'i gilydd, yn tanseilio cydweithio rhwng partneriaid.<br>• Nid oes gan Lywodraeth Cymru bwyllgor rhanbarthol sy'n gyfrifol am fuddiannau ieithyddol gogledd-ddwyrain Cymru<br>• Peryg bod prisiau rhatach tai Cymru yn denu'r di-Gymraeg i fyw a gweithio yng Nghymru a bod hynny'n gwanhau'r Gymraeg.<br>• Ansicrwydd am fanylion/feini prawf Asesiadau Gwrthdaro ar Y Gymraeg yn y broses Cynllunio.<br>• Nid yw'n bosib sicrhau bod modd defnyddio Cytundebau Adran 106 i leddfu gwrthdaro ar y Gymraeg trwy adeiladu ysgolion tan fod tystiolaeth o'r angen.<br>• Newidiadau cymdeithasol a demograffaidd a ffactorau fel symudoledd poblogaeth (mewnfudo/allfudo) yn tanseilio sefyllfa'r Gymraeg ymhellach.<br>• Rhai adrannau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddim yn gweithredu yn unol â |

| | |
|---|---|
| • Pwysleisio gwerth economaidd i'r Iaith er mwyn annog:<br>➢ Rhieni i ddewis Addysg Gymraeg<br>➢ Pobl ifanc i ddewis astudio pynciau (gan gynnwys Cymraeg Lefel A) trwy gyfrwng y Gymraeg<br>➢ Mwy o fusnesau'n defnyddio'r Gymraeg.<br>• Gobaith welliannau yn y ddarpariaeth band-eang/digidol (5G)<br>• Mae CSyGMA CBS Wrecsam yn nodi bod bwriad o gynyddu'r nifer o lefydd ar gael i'r rhai sydd eisiau derbyn addysg Gymraeg.<br>• Bod yr Awdurdod Addysg yn anelu o ddifri at sefydlu ail ysgol uwchradd benodedig Gymraeg<br>• Bod y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn dechrau ystyried y Gymraeg fel thema lorweddol o fewn ei bolisïau i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>• Datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn y gymuned. | gofynion y Safonau Iaith gan arwain at wasanaethau annigonol Cymraeg neu ddwyieithog<br>• Diffyg staff dwyieithog o fewn y Cyngor Sir i ddarparu gwasanaethau Cymraeg/dwyieithog a diffyg cynlluniau ynglŷn â sut i ddod ag gafael â'r diffyg hynny.<br>• Mae'r ffaith bod rhieni'n gorliwio gallu ieithyddol eu plant (fel siaradwyr ail iaith) yn parhau i wyrdroi gwir sefyllfa'r Gymraeg o ran y niferoedd a chanrannau sy'n medru ei siarad ar lefel sirol.<br>• Mewnlifiad cyson i drefi, pentrefi ac ardaloedd gwledig.<br>• Mewnlifiad cynyddol i ganolfannau cymudwyr ar y ffin â Lloegr ac sydd yn codi costau eiddo ac yn troi rhai pentrefi mewn ardaloedd gwledig bentrefi cymudo.<br>• Allfudiad o siaradwyr Cymraeg oherwydd diffyg gwaith a diffyg cydnabyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle (yn enwedig gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol).<br>• Yr iaith ddim yn cael ei drosglwyddo mewn rhai teuluoedd.<br>• Diffyg gwybodaeth am yr iaith yn enwedig ymhlith mewnfudwyr a'r di-Gymraeg (ond weithiau ymhlith y Cymry).<br>• Diffyg gwasanaethau Cymraeg.<br>• Diffyg Gofal Cymdeithasol i'r henoed neu Ofal Plant cyfrwng Cymraeg.<br>• Mae'r gogledd-ddwyrain yn tueddu cael ei anghofio gan bawb! |

## 11.2 PEST

Pwrpas y fframwaith PEST (ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol) isod yw canfod ffeithiau sy'n dylanwadu ar ffactorau neilltuol (ee. Y Gymraeg) yn Sir Wrecsam. Mae adnabod y ffactorau hyn yn rhoi gwell darlun o'r ffactorau allanol sy'n fygythiad neu'n creu cyfleoedd.

| **Gwleidyddol** | **Economaidd** |
|---|---|
| • Dim gymaint o ffocws gwleidyddol ar effaith Brexit ar gymunedau Cymru<br>• Ansicrwydd parhaus i ddyfodol y Gymraeg<br>• Ffocws ar etholiad Senedd Cymru 2026 cyfleoedd a bygythiadau<br>• Potensial am gonsensws gwleidyddol i'r Gymraeg a gweledigaeth i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg | • Effaith dirwasgiad ar gymunedau Cymru<br>• Effaith posib o economi ardaloedd eraill y DG yn adfywio yn gyflymach nac economi Cymru<br>• Lefel cyflogau cyfartaledd<br>• Tlodi gwledig a trefol a newidiadau mewn mathau o dlodi h.y. cyfartaledd cyflog byw<br>• Prisiau tai a'i fforddadwyedd |

| | |
|---|---|
| • Etholiadau nesaf Llywodraeth Leol<br>• Mesur y Gymraeg 2011 – normaleiddio defnydd o'r Gymraeg<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | • Ansicrwydd ynghylch cyllid a rhaglenni cronfeydd strwythurol i olynu arian yr UE<br>• Sgil effeithiau llymder, ar yr economi a gwasanaethau lleol<br>• Cyfleoedd i fwydo mewn i raglenni economaidd rhanbarthol a'r economi sylfaenol.<br>• Cyfleoedd i greu a datblygu mentrau economaidd a chymdeithasol |
| **Cymdeithasol**<br>• Poblogaeth Cymru yn heneiddio<br>• Effaith mewnfudo ac allfudo pobl ifanc sydd yn siarad Cymraeg<br>• Canran y siaradwyr Cymraeg<br>• Argaeledd arweinwyr cymunedol<br>• Awydd yn lleol i ddefnyddio ac ymfalchïo yn y Gymraeg<br>• Amrywiaeth o fewn sefydliadau gwirfoddol a defnydd o'r Gymraeg oddi mewn iddynt<br>• Cyfleoedd cymdeithasol<br>• Cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc<br>• Cyfleodd gwirfoddoli<br>• Sut mae pobl iau yn cymryd rhan<br>• Ffocws ar newid agweddau a dylanwad ffactorau sydd yn gysylltiedig â'i gilydd. | **Technolegol**<br>• Defnydd o dechnoleg ar draws rhychwant oedran<br>• Cynnydd mewn cymhwysedd digidol<br>• Rhwydweithiau cymdeithasol<br>• Adnoddau sydd ar gael<br>• Rheoliadau a chyfyngiadau megis GDPR o ran ysgogiad i gydweithio a rhannu gwybodaeth<br>• Yr isadeiledd TG o fewn yr ardal<br>• Sgiliau digidol<br>• Cyfle i ddatblygu mentrau newydd yn seiliedig ar dechnoleg<br>• Defnyddio technoleg i leihau costau |

## 12. Gwaith ymchwil

Nid oes unrhyw ymchwil perthnasol ar gael ar hyn o bryd.

## 13. GDPR

Wrth gysylltu gyda grwpiau ac unigolion yn y gymuned mae Menter Iaith Fflint a Wrecsam wedi dilyn ein polisi preifatrwydd (GDPR) sydd ar gael yma:
[MIFfaW-Rhybudd-preifatrwydd-cwsmeriaid-a-chleientiaid.pdf]